



Tai Amlfeddiannaeth (TA) a Deddf Tai 2004

HYSBYSIAD CYHOEDDUS MEWN PERTHYNAS Â'R CYNLLUN TRWYDDEDU YCHWANEGOL CYFLWYNO CYNLLUN TRWYDDEDU YCHWANEGOL YN WARD GYMUNEDOL PLASNEWYDD, CAERDYDD

Hysbysiad

Rhoddir hysbysiad drwy hyn fod Cyngor Dinas Caerdydd wedi cadarnhau dynodi cynllun trwyddedu ychwanegol mewn perthynas â thai amlfeddiannaeth yn Ward Gymunedol Plasnewydd. Gelwir y cynllun hwn yn (Cynllun Trwyddedu Ychwanegol Tai Amlfeddiannaeth Cyngor Dinas Caerdydd 2014) ("Y Cynllun"). Mae cadarnhau'r dynodiad yn unol ag Adrannau 56 i 60 Deddf Tai 2004 ("y Ddeddf") a rheoliad 9 Rheoliadau Trwyddedu a Rheoli Tai Amlfeddiannaeth a Thai Eraill (Darpariaethau Amrywiol) 2006.

Gwnaethpwyd y dynodiad yng Nghyfarfod Cabinet y Cyngor ar 17 Gorffennaf 2014. Mae Cymeradwyaeth Gyffredinol Deddf Tai 2004 (Trwyddedau Tai Amlfeddiannaeth Ychwanegol) (Cymru) 2007, a ddaeth i rym ar 13 Mawrth 2007 yn berthnasol i'r dynodiad hwn.

Daw'r Cynllun i rym o 3 Tachwedd 2014 ac oni bai ei fod yn cael ei ddirymu ymlaen llaw daw'r Cynllun i ben ar 3 Tachwedd 2019. Mae'r Cynllun yn berthnasol i'r holl Dai Amlfeddiannaeth (Tai Amlfeddiannaeth) yn yr ardal a nodir uchod ac eithrio'r rheiny a eithrir gan adrannau perthnasol y Ddeddf.

Dylai unrhyw landlord, person sy'n rheoli neu denant o fewn y Ddinas ofyn am gyngor gan Wasanaeth yr Amgylchedd (Gorfodi Tai) Cyngor Dinas Caerdydd ynglŷn â pha eiddo yr effeithir arno gan Gynllun Trwyddedu Ychwanegol Ward Gymunedol Plasnewydd.

Bydd rhaid i berson sydd â rheolaeth dros, neu sy'n rheoli, TA yn yr ardal ddynodedig ymgeisio am drwydded gan Gyngor Dinas Caerdydd.

Mae methu ag ymgeisio am drwydded yn drosedd o dan Adran 72(1) Deddf Tai 2004 a gellir dirwyo person hyd at £20,000. Yn ychwanegol efallai y bydd yn rhaid i chi ad-dalu hyd at 12 mis o rent a gasglwyd yn ystod y cyfnod yr oedd yr eiddo heb drwydded.

Cyn i gais gael ei ystyried rhaid iddo roi manylion penodol a rhaid i'r ffi angenrheidiol fod ynghlwm wrtho. I ofyn am ffurflen gais yn ysgrifenedig cysylltwch â Gorfodi Tai, Gwasanaethau Rheoliadol a Chefnogol, Cyngor Dinas Caerdydd, Neuadd y Ddinas, Caerdydd, CF10 3ND neu dros y ffôn ar 029 2087 1762 neu drwy e-bostio PrivateSectorHousing@caerdydd.gov.uk

Mae copi o'r Cynllun ar gael i'w archwilio yn y Dderbynfa, Neuadd y Ddinas, Caerdydd, CF10 3ND. Mae'r wybodaeth hon hefyd ar gael ar wefan y cyngor www.cardiff.gov.uk/ENG/Business/Licences-and-permits/Houses-in-multiple-occupancy/Pages/default.aspx